# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 29ain o Fedi 2021**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng J Pierce, Cyng B Jones, Cyng D Jones-Morris a'r Cyng D W Jones
2. Ymddiheuriadau Cyng M Lynch
3. Cod Ymddygiad
   Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

   Cyng L A James a J Pierce yn aelodau ar bwyllgor Canolfan Penrhos
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 01-09-2021

   Cyng J Pierce yn cynnig a'r Cyng D W Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir
5. Materion yn codi o'r cofnodion
   - **Archwilwyr Allannol** Dim adroddiad derfynnol wedi cyrraedd a felly bydd angen hysbysebu hynny ar ein gwefan onibai ei bod yn cyrradd fory 30 o Fedi **Clerc am drefnu**
   - **Y Ganolfan Newydd** – E byst wedi eu derbyn o 'Moderneiddio Addysg' yn hytrach na'r Adran Eiddo ond dim cyfarfod wedi bod. **Clerc i gysylltu et oi gadarnhau mae mater Cymunedol sydd angen ei drafod dim materion addysg**
6. Adroddiad Ariannol
   - 'Roedd y fantolen ariannol wedi ei rhannu'n electronig hefo'r aelodau ag yn dangos fod bellach £53,191.96 yn y cyfrif cyfredol, a £35,038.51 yn y cyfri Cadw Busnes.
     Pwysleisiwyd eto yr angen i ddatblygu y cyllun busnes a cytunwyd I'r Clerc Cadeirydd y Cyngor Llawn a'r IBC yn ogystal a'r Cyng D Jones-Morris i gyfarfod yn Tan y Castell Nos Fercher 13eg am 7.00
   - Archwilwyr Allannol - Nodwyd dan Materion yn codi
   - Taliadau angen sylw – Argymell i'r Cyngor Llawn fod y Clerc yn talu'r cyfan oedd wedi do di law
7. Ceisiadau Nawdd

   Cais gan CP Ieuenctid Penrhos tuag at Diffib

   Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn prynu Diffib i'r clwb a'i gynnwys fel un o'r rhwydwaith diffribyddion y Cyngor.
   'Roedd y Clerc wedi cysylltu i holi ynglyn a Padiau oedolion sydd yn ein peiriannau presennol. Mae yna badiau plant ar gael ar gost ychwanegol – efallai gallai'r clwb brynu rheini tae nhw angen
8. Prosiectau
   - Prosiect Ysgol Y Faenol Mae yna bryderon ynglyn a Gwaith allannol a thirlunio
     **Clerc yn ceisio trefnu cyfarfod ag uwch swyddogion eiddo**
     **Gwynedd**
   - Ganolfan bresennol – datgelwyd pryder ynglyn a thrafferthion cael ymateb yn ol gan y Trysorydd
   - Logo Cyng L A James heb drafod ymhellach hefo'r dylunydd
   - Septic Tanc Glasinfryn Clerc ddim wedi derbyn amcanbris o Dwr Cymru
   - Dim un o'r ddau fin sbwriel wedi eu gosod yn y Fynwent na'r Cae Chwarae
9. **9.** I'w trafod hefyd
   - Asesu Risg Rhai cynghowyr wed cydnabod ymgymeryd a rhywfaint o'r Gwaith adolygu'r Gofrestr i geisio lleihau y risgiau oedd wedi eu adnabod yn y Cyngor LLawn dwaetha. Clerc i drefnu ymateb i leihau y risgiau oedd wedi eu adnabod gan RoSPA wrth archwylio'r Cae Chwarae
   - Cynllun Busnas Hwyluso cyfarfod wedi ei drefnu a cheisio cael cynllun draft at ei gilydd fydd yn cyd-fynd/cwmpasu/cyfarch Cynlluniau Cyngor Gwynedd a Pholisiau Llyw Cymru

- Unllais - Cododd y Cyng NB Jones fater oedd wedi ei drafod yng nghyfarfod Unllais am reoleiddio JetSkis sy'n achosi pryderon ar hyd ein arfordir gan gynnwys yr Afon Menai –
  **Cytunwyd ei roi ar Agenda nesaf y Cyngor Llawn**